**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Hydref 2007**

**ALLDRO AMCANOL 2007-2008**

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Mae'r adroddiad yma'n darparu'r Aelodau â'r alldro amcanol amcangyfrifedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2007-2008.

## Cyflwyniad

**2.** Mae gwariant yn erbyn cyllideb yn cael ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub ac mae unrhyw amrywiannau neu amrywiannau disgwyliedig yn cael eu amlygu cyn gynted ag y maent yn codi er mwyn rhoi mesurau yn eu lle i sicrhau nad oes risg ariannol i'r Awdurdod. Mae dangosyddion presennol yn nodi y disgwylir gorwariant o £12k. Mae'r dadansoddiad manwl wedi ei gynnwys yn Atodiad A, ac unrhyw danwariant wedi eu dangos mewn cromfachau ( ).

## Amrywiaethau i'r Gyllideb

**3.** Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyflogau ac, os na fydd cynnydd mewn gweithgaredd oherwydd llifogydd dros fisoedd y gaeaf, bydd tanwariant net ar gyflog. Mae'r gorwariant ar staff lifrau llawn amser yn bennaf oherwydd fod costau Staff yr Ystafell Reoli yn

**Amrywiaethau i'r Gyllideb** *(parhad)*

uwch na chyllidwyd ar ei chyfer. Mae hyn o ganlyniad i'r penderfyniad i ddyroddi cytundebau parhaol er mwyn cadw staff medrus oedd ar gytundebau dros dro. Amcangyfrif fod costau pensiwn y cynllun pensiwn newydd i ddiffoddwyr tân yn llai na chyllidwyd ar ei chyfer oherwydd disgwylir i ymddeoliadau oherwydd afiechyd fod yn llai na'r disgwyl. Gellir priodoli'r tanwariant ar staff lifrau rhan amser yn bennaf oherwydd y gostyngiad mewn gweithgaredd gweithredol.

**4.** Mae'r pennawd Adeiladau yn dangos y disgwylir gorwario ar wasanaethau oherwydd prisiau uchel cyfleustodau. Disgwylir i wariant ar drethiant lleol fod yn uwch na'r disgwyl oherwydd y disgwyliad y byddai'r Gwerthuswr Dosbarth yn gostwng rhai o'r cyfraddau fod yn fwy optimistig nag oedd mewn gwirionedd. Roedd costau refeniw yr Ystafell Reoli newydd wedi cael eu cynnwys yng nghyllideb 2007/2008 ond disgwylir na fydd y symudiad hwn yn digwydd nes dechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Mae'r arbedion ar gostau'r Ystafell Reoli newydd wedi gwrthbwyso'r cynnydd ym mhrisiau'r cyfleustodau ac mewn trethiant lleol.

**5.** O dan Trafnidiaeth, mae'r cynnydd yn y defnydd o danwydd wedi ei wrthbwyso gan arbedion ar yswiriant cerbydau.

**6.** O dan Cyflenwadau a Gwasanaethau disgwylir gorwariant mewn nifer o feysydd yn rhannol oherwydd y cynnydd mewn gweithgareddau Diogelwch Tân. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn ymwybodol o'r angen i adolygu nifer o benawdau i adlewyrchu ei strwythur a lefelau gweithgareddau presennol. Fel rhan o broses gosod cyllideb 2008/09, bydd yn edrych i drosglwyddo adnoddau ychwanegol o linellau cyllideb cyflenwi eraill i'r penawdau hynny a dan-ddarperir ar eu cyfer ar hyn o bryd.

**Amrywiaethau i’r Gyllideb** *(parhad)*

**7.** Bydd costau’r Gwasanaethau Cyfreithiol yn cael eu gorwario oherwydd y gwaith ar faterion gweithwyr a ymgymerwyd ag ef gan ymgynghorwyr cyfreithiol allanol.

**8.** Amcangyfrifir costau Ariannu Cyfalaf i fod yn is na’r swm a gyllidebwyd ar ei gyfer oherwydd llithriad ar y rhaglen gyfalaf yn 2006/2007.

**9.** Mae’r amcangyfrif o'r alldro ar gyfer incwm yn uwch nag amcangyfrifwyd yn bennaf oherwydd ad-dalu costau staff gan y Cynulliad a Brigadau eraill. Disgwylir i’r incwm o fuddsoddiadau fod yn is nag a ragwelwyd oherwydd gostyngiad yn lefel y darpariaethau a ddelir gan yr Awdurdod.

**Argymhelliad**

**10.** Nodi yr amcangyfrifir ar hyn o bryd i’r gorwariant fod yn £12k. Disgwylir bydd hyn yn cael ei reoli yn fewnol. Y bydd hefyd arian ar gael yn y Ddarpariaeth Pensiwn i gwrdd â unrhyw orwariant (bydd adroddiad yn manylu ar y ddarpariaeth bensiwn yn cael ei gyflwyno i Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Panel Gweithredol)